

JONES, THOMAS (1756 - 1820), awdur a gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

Enw: Thomas Jones

Dyddiad geni: 1756

Dyddiad marw: 1820

Priod: Mary Jones (née Lloyd)

Priod: A. Jones (née Maysmor)

Priod: Elizabeth Jones (née Jones)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: awdur a gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu

Awdur: Idwal Jones

Ganwyd ym Mhenucha, Caerwys, treftadaeth ei dad Edward, a chafodd addysg glasurol yn ysgolion Caerwys a Threffynnon. Gan na fynnai gymryd urddau eglwysig nid aeth i'r brifysgol, ond yn 1772 ymunodd â'r Methodistiaid, ac yn 1783 dechreuodd bregethu. Gofalai am achosion yn yr Wyddgrug (1795-1804), Rhuthyn (1804-6), a Dinbych (1809-20). Priododd (1), 1795, Elizabeth Jones o'r Wyddgrug, merch dduwiol a chyfoethog a fu farw yn 1797 gan adael y rhan fwyaf o'i heiddo i'w gŕ; (2), 1804, A. Maysmor o Lanelidan; (3), 1806, Mary Lloyd o Lanrwst. Yn 1784 cyfarfu â [Thomas Charles](#), a thrwy eu cyfeillgarwch agos daeth i gyffyrddiad â'r byd crefyddol o'r tu allan i Gymru, a mudiadau megis y Feibl Gymdeithas, Cymdeithas Genhadol Llundain, a'r ysgolion rhad cylchynnol. Dylanwadodd yntau ar Gymraeg ei gyfaill ac ar ei agwedd tuag at ordeinio gweinidogion. Cydweithient fel golygwyr *Y Drysorfa Ysprydol*, 1799-1801, a *Rheolau a Dybenion y Methodistiaid yng Nghymru*, 1801, a bu gohebiaeth gyson rhyngddynt. Ysgrifennodd gofiant [Charles](#), 1814.

Yr oedd Thomas Jones yn un o arweinwyr mwyaf medrus a dysgedig ei enwad yn y Gogledd, a chafodd ei ordeinio gyda'r to cyntaf o weinidogion yn 1811. Yr oedd yn ysgolhaig, diwinydd, a hanesydd, yn ysgrifennu Cymraeg cryf, glân, a chywir. Yn ei hunangofiant diddorol rhydd hanes ei bererindod ysbrydol, a daw nerth a swyn ei bersonoliaeth yn amlwg. Bu ei gynnyrch llenyddol yn hynod fawr, gan gynnwys cyfieithiad o'r *Cristion mewn Cyflawn Arfogaeth* gan Gurnal, 1796-1819; *Hanes Diwygwyr, Merthyron, a Chyffeswyr Eglwys Loegr*, 1813; a *Geiradur Saesoneg a Chymraeg*, 1800. Yr oedd yn fardd da yn y mesurau caethion, gan ymhyfrydu yng ngwaith [Dafydd ap Gwilym](#), fel y dengys ei 'Cywydd i'r Aderyn Bronfraith,' 1793; ac fe genir hyd heddiw nifer o'i emynau, megis ei gyffes ffydd, 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw.' Cymerodd ran amlwg yn nadleuon diwinyddol y cyfnod, gan geisio, trwy gynnig ac esbonio Calfiniaeth gymedrol mewn llyfrau a phamffledi, arbed ei enwad rhag eithafion Arminiaeth ac Uchel Galfiniaeth. Argraffwyd y rhan fwyaf o'i waith yn y wasg a osododd yn ei d yn Rhuthyn yn 1804, a gludodd gydag ef i Ddinbych, ac a brynwyd gan ei argraffydd, [Thomas Gee](#), yn 1813. Bu farw yn Ninbych 16 Mehefin 1820.

Awdur

Yr Athro Idwal Jones, (1889 - 1965)

Ffynonellau

Thomas Jones, John Humphreys a John Roberts (goln.), *Cofiant, neu Hanes bywyd a marwolaeth y Parch. Thomas Jones, Gweinidog yr Efengyl, yn ddiweddar o dref Ddinbych* (Dinbych 1820)

Owen Thomas, *Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn* (Efrog Newydd 1868), xi

Jonathan Jones, *Cofiant y Parch. Thomas Jones o Ddinbych, yn cynnwys ei gyssylltiad a duwinyddiaeth a llenyddiaeth ei oes, a hanes a symudiadau y Methodistiaid Calфинаidd, ac a'r ordeiniad cyntaf a fu ar eu gweinidogion yn y flwyddyn 1811, gyda deg ar hugain o ddarluniau* (Dinbych 1897)

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908)

Y Llenor: cylchgrawn chwarterol dan nawdd cymdeithasau Cymraeg y colegau cenedlaethol, Hydref 1933

Journal of the Welsh Bibliographical Society, v, 3

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd, xxix, 4

Darllen Pellach

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd (1895-1897)*, ii, 374-409

Erthygl Wicipedia: [Thomas Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [73722124](#)

Wikidata: [Q14476852](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

